Cynllun Gofal
Ysgol y Dderwen
Ymateb i'r argyfwng costau byw

Mae cynnydd mewn costau byw yn cael effaith bryderus ar ddisgyblion a rhieni, sy'n "cael trafferth byw o ddydd i ddydd".

Mae cynllun "Gofal" Ysgol y Dderwen yn anelu i gynorthwyo teuluoedd i adfer o effaith y pandemig wrth gefnogi eu lles ac addysg eu plant.

Ein nod wrth weithredu ein cynllun "gofal" yw i ddatblygu ein hysgol i ymateb i anghenion y gymuned ac i adeiladu partneriaethau gyda theuluoedd a gwasanaethau eraill.

Weithiau mae disgyblion yn dod i'r ysgol yn dweud nad ydynt wedi cael brecwast neu nad oes gan mam ddigon o fwyd yn y cypyrddau neu'r oergell. Ar adegau mae plant yn dod i'r ysgol yn llwglyd neu'n flinedig. Mae hyn rhoi straen arnynt i ganolbwyntio ac i ddysgu.

Fel ysgol, 'rydym yn bryderus bod yr argyfwng costau byw yn mynd i gyfyngu datblygiad ein plant. Bydd yr argyfwng yn arwain at newid mawr o ran gallu, ymddygiad a lles emosiynol ein disgyblion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau yn gynharach yn y flwyddyn hon i ddarparu cinio am ddim o fis Medi i'r rhan fwyaf o blant dosbarth derbyn a phob plentyn mewn ysgolion cynradd.

Dywedodd y Gweinidog Addysg, Jeremy Miles bod "teuluoedd yn teimlo o dan bwysau o ganlyniad i'r costau byw cynyddol"

Ychwanegodd: "Mae'r cynllun Bwyd a Hwyl yn gwneud y mwyaf o gyfleusterau ysgol gan gynnig gweithgareddau hwylus yn ogystal â bwyd iachus, ac yn gallu chwarae rôl wrth helpu plant o ardaloedd difreintiedig i adfer o effaith y pandemig gan gefnogi eu lles ac addysg.

Mynd i'r Afael â'r Argyfwng Costau Byw:

Sut y gallwn ni fel ysgol helpu?

1
Cyfathrebu a chyfeirio

Ar ein Ap Ysgol mae yna ardal bwrpasol ar gyfer cefnogaeth. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni a gwarcheidwaid am gymorth ariannol statudol a gwirfoddol, gan gynnwys hyrwyddo grantiau dillad ysgol a chysylltiadau at ffurflenni cais. Byddwn hefyd yn anfon gwybodaeth atoch er mwyn i deuluoedd gael mynediad at y wybodaeth.

2
Rhifau yswiriant gwladol

Os oes angen cymorth arnoch i gael mynediad at grantiau, cysylltwch â ni fel y gellir gwirio eich rhif yswriant gwladol yn erbyn eich cymhwysedd i dderbyn grantiau/cymorth yn awtomatig. Gallwn ddarparu mwy o gefnogaeth i rieni sydd angen help i lenwi ffurflenni cais.

3
Addysgu llythrennedd ariannol a mynediad TGCh i bob plentyn.

Fel ysgol 'rydym wedi ymrwymo i helpu disgyblion drwy sicrhau bod llythrennedd ariannol yn rhan annatod o'n cwricwlwm. Rydym wedi ymuno hefyd â Banciau lleol i helpu plant i fagu hyder ariannol trwy ddarparu deunyddiau dysgu am ddim. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cynnal awdit TGCh yn flynyddol er mwyn sicrhau bod mynediad o adref gan bob plentyn i Hwb.

4
Digwyddiadau elusennol

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw gyfraniad o ran codi arian. Byddwn yn cyd-weithio â'r GRhA yn ystyriol wrth drefnu digwyddiadau, er mwyn osgoi rhoi pwysau ariannol ar deulueodd. Mae'r CRhA wedi trosglwyddo £7000 i gyfrif yr ysgol yn barod eleni er mwyn cynorthwyo tuag at ariannu teithiau a phrofiadau gwerthfawr i'r plant yn ystod y flwyddyn.

5
Tripiau a Theithiau preswyl

Mae disgyblion wedi colli digon o gyfleoedd dros y ddwy flynedd diwethaf. Byddwn yn rhoi digon o rybudd a chyfle i ledaenu'r gost drwy gynlluniau ad-dalu. Gwnawn ein gorau i gadw costau mor isel a phosib. Ni fydd unrhyw blentyn yn cael ei eithrio o unrhyw brofiad dysgu nac ymweliad oherwydd cost.

6
Clwb brecwast a Chlwb Gofal

Ni fyddwn yn cynyddu unrhyw brisiau hyd y gellir rhagweld. Byddwn yn cynnig brecwast am ddim yn ystod y clwb brecwast ac yn sicrhau bod plant yn cael cynnig tost os ydynt wedi methu brecwast cyn cyrraedd yr ysgol.

7
Gwisg ysgol "bron yn newydd"

Rydym yn gallu cyfeirio rhieni at grantiau Llywodraeth Cymru i brynu gwisg ysgol a gallwn gynnig eitemau "bron yn newydd" i deuluoedd. Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â thalu am wisg ysgol, cysylltwch â ni!

8
Gweithwyr cymorth i deuluoedd

Mae gennym ni gefnogaeth gweithwyr cymorth i deuluoedd (Tîm o Amgylch y Teulu) sy'n gallu cynnig cymorth a chyngor un-i-un i ddisgyblion a rhieni sy'n cael trafferth gydag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys materion ariannol a dyledion.

9
Cymorth i Deuluoedd

Trwy integreiddio gwaith gwasanaethau'r sector statudol a gwirfoddol gallwn ddarparu cysylltiadau i rieni sy'n cael trafferth cael cymorth. Mae'r 'rhaglen Hybiau Teulu' yn cael ei chefnogi gan y Llywodraeth ac yn rhan o'r genhadaeth lefelu.